Rhwydwaith CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Arolwg Rhanddeiliaid Cenedl Noddfa Yn cau 30 Ebrill 2024

Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein.

Cwestiynau:

**1. A ydych yn cytuno y dylai'r Cynllun Cenedl Noddfa diwygiedig ganolbwyntio ar Egwyddorion a chynnwys llai o gamau gweithredu?**

- **Ydw**
- Nac ydw

Esboniwch eich ateb:
Bydd mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar egwyddorion yn caniatáu hyblygrwydd ac yn galluogi partneriaid i addasu eu hymagwedd o ganlyniad unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i sefydliadau gydweithio mewn ffordd fwy cynhyrchiol na phe bai'n ymagwedd sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu.

**2. A ydych yn cytuno gyda'r Egwyddor Cenedl Noddfa?**

- **Ydw**
- Nac ydw

Esboniwch eich ateb:
Mae'r egwyddorion yn galluogi sefydliadau i gydweithio o fewn fframwaith â ffocws a fydd yn eu galluogi i addasu i unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

**3. A oes unrhyw Egwyddorion ar goll yn eich barn chi?**

- Oes
- **Nac oes**

Esboniwch eich ateb:

**4. Sut y gallem gynnwys y cyhoedd mewn ffordd ystyrlon a defnyddiol yn ein Gwaith Cenedl Noddfa?**
Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn elfen hollbwysig o'r ymagwedd hon. Byddai ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu yn hanfodol, ond byddai ymgysylltu â chynghorwyr lleol hefyd i helpu i hyrwyddo negeseuon ynghylch yr ymagwedd hon yn helpu. Dylai unrhyw weithgarwch ymgysylltu adlewyrchu'r ymagwedd "Tîm Cymru" er mwyn sicrhau cysondeb, gan atgyfnerthu rolau sefydliadau o fewn yr ymagwedd hon.

**5. Beth yw'r tri cham gweithredu â'r flaenoriaeth uchaf y mae angen eu cynnwys yn y Cynllun diwygiedig yn eich barn chi?**
**Gosodwch eich camau gweithredu â blaenoriaeth mewn trefn, gan ddarparu tystiolaeth ar gyfer eich barn: ***

1. Ymagwedd hawliau dynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn – mae cefnogi anghenion ceiswyr lloches yn bwysig
2. Cydweithio fel 'Tîm Cymru' – bydd hyn, ar y cyd â'r egwyddor ymagwedd integredig, yn elfen allweddol wrth ddatblygu system gefnogi effeithlon

3. Chwiliwch am ddatrysiadau hirdymor - mae hyn hefyd yn ffactor pwysig i sicrhau cynaliadwyedd y gwaith hwn.

**6. Rhowch fanylion am gamau gweithredu â blaenoriaeth is y dylid eu cynnwys yn y Cynllun diwygiedig yn eich barn chi.**
**Rhowch fanylion am y camau gweithredu eraill yr hoffech eu gweld, gan ddarparu tystiolaeth ar gyfer eich barn:**
n/a

**7. Sut y gallwn sicrhau bod y Cynllun Cenedl Noddfa diwygiedig yn cyflawni ei gamau gweithredu a'i egwyddorion?**
Mae angen i rôl a chyfrifoldeb sefydliadau fod yn glir, ac mae angen dealltwriaeth glir o ble mae hyn yn gweithio o fewn strwythurau llywodraethu er mwyn sicrhau bod gweithgarwch presennol yn cyd-fynd â chydlyniant cymunedol. Bydd cyflwyno'r cynllun hwn fel menter ar wahân neu ar ei phen ei hun yn lleihau ei effaith a'r cyfle i gysylltu â materion cysylltiedig.

**8. A allwch nodi unrhyw effeithiau ychwanegol (cadarnhaol neu negyddol) y gallai'r ddogfen hon eu cael ar Geiswyr Noddfa, y Gymraeg, Cydraddoldeb neu Hawliau Plant? Esboniwch eich barn ac unrhyw awgrymiadau ar gyfer sut y gellid diwygio'r ddogfen fel y gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol.**
N/a

**9. Enw ***
Mark Brace

**10. Cyfeiriad e-bost cyswllt ***
safercommunities@wlga.gov.uk
**11. Sefydliad ***
Wales Safer Communities Network

**12. Sector**

**13. A fyddech yn fodlon inni gysylltu â chi ymhellach ynglŷn â'ch ymatebion? ***
- **Byddwn**
- Na fyddwn

**14. A hoffech gael eich ychwanegu at y rhestr bostio er mwyn cael diweddariadau ar y broses o ddiweddaru'r Cynllun Cenedl Noddfa?**
- **Hoffwn**
- Na hoffwn